

**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**  
**1 Hydref 2018 yn Neuadd Jiwibili Llangeitho am 8 o'r gloch.**

**Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday, 1 October 2018, at Jubilee Hall, Llangeitho, at 8pm**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol / *The Chair welcomed everyone to the monthly meeting.*

**Presennol/Present**

Cyng Gwenfair Owen (Gadair/Chair), John Evans, Myrddin James, Emyr Jones, Daniel Thomas, Eirian Jones, Gerwyn Ebenezer, Gwilym Evans, Paul Rooke, Dafydd Morse, PCSO John Evans a Cyng Rhodri Evans.

**Ymddiheuriadau/Apologies** – Cyng Rhian Turner.

**Datgan Diddordeb/Declaration of Interest** – Neb / No one

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans.

*Cllr John Evans proposed accepting the Minutes of the last meeting, and this was seconded by Cllr Gwilym Evans.*

**Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes**

- Gwaith ar y bont bren yn Rhydypanyd wedi'u gwblhau.
- *Work on the wooden bridge at Rhydypanyd has been completed.*
- Diolchwyd i Cyng Eirian Jones eto am gyfieithu'r cofnodion a soniwyd bod y Clerc wedi'u llwytho ar y gwefan. Angen llwytho'r cyfrifon i'r gwefan ond gan nad oedd yna ffordd i lwytho'r cyfrifon, soniwyd bod Technoleg Taliesin yn medru cynorthwyo.
- *Cllr Eirian Jones was thanked once more for translating the Minutes, and it was noted that the Clerk had uploaded them onto the community council's website. The accounts need to be uploaded to the website, but, as there was no means of uploading these at the moment, it was noted that Technoleg Taliesin would need to assist.*
- Soniwyd nad oedd yna waith wedi'u wneud ar culvert oedd wedi rhoi fewn ar yr ochr dde wrth droi lan o Parcrhydderch, Llangeitho, SY25 6QG lan am Bronaeron, Llangeitho, SY25 6QQ hyd yma.
- *It was noted that, to date, no work had been done on the right-hand side culvert as you turn up from Parcrhydderch, Llangeitho, SY25 6QG towards Bronaeron, Llangeitho, SY25 6QQ.*
- Angen sylw ar y drain agored lawr heol Parcrhydderch.
- *On open drain on the Parcrhydderch road needs attention.*
- Soniwyd fod Gareth Davies, Parcrhydderch wedi rhoi darn o dir i Gyngor Sir Ceredigion ond nad yw'r Cyngor Sir wedi dychwelyd i darmacio yn iawn. Soniwyd bod Mr Brian Thomas yn mynd oddi amgylch efo Cyng Rhodri Evans yn fuan a gawn drafod y mater yma yn y fan a'r lle.
- *Gareth Davies, Parcrhydderch has given a piece of land to Ceredigion County Council, but the Council has not yet been to tarmac it properly. It was noted that Mr Brian Thomas would be travelling around the area with Cllr Rhodri Evans soon, and both would discuss the matter at the site.*
- Angen torri coed sy'n tyfu allan wrth ddod fyny rhiw Pontgoy.
- *Need to cut trees which are growing outwards over Pontgoy hill.*
- Angen trwsio'r tap sy'n gollwng dwr yn y standpipe Heol Meidrym – gofyn i Henry Bulman.
- *Need to fix the leaking tap on the Heol Meidrym standpipe – ask Henry Bulman.*
- Derbyniwyd adroddiad ar lafar am gyfarfod cyntaf Eisteddfod 2020 yn Aberaeron ar 20 Medi 2018 gan Cyng Daniel Thomas. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Sadwrn 13 Hydref 2018.
- *Verbal report received from Cllr Daniel Thomas about the first 2020 Eisteddfod meeting in Aberaeron on 20 September 2018. The next meeting will be held on Saturday, 13 October 2018.*
- Diolchwyd i Cyng Daniel Thomas am dynnu'r lluniau o'r milwr ar y cylchfan.

Datgan Diddordeb: Cyng Daniel Thomas

Trafodwyd y cais grant i lanhau'r milwr ar y cylchfan. Clerc i gysylltu â Mr Kieran Elliott i ddodi'r gwaith yn ei rhaglen waith. Cytunwyd i ddodi'r railings nôl oddi amgylch y milwr, fel oedd yn y lluniau gwreiddiol.

*Cllr Daniel Thomas was thanked for taking photographs of the soldier / remembrance monument on Llangeitho roundabout.*

*Declaring an interest: Cllr Daniel Thomas*

*Discussions continued on the grant application for clean the soldier / remembrance monument on the roundabout. Clerk to contact Mr Kieran Elliot so that he can place the work in his schedule. It was agreed to put railings back around the monument, as shown in the old photographs.*

- Cyng Rhodri Evans i wneud ymchwil ar sefyllfa'r byrddau gwybodaeth oddi amgylch pentref Llangeitho, gan fod arian Ewropeaidd a ddefnyddir i brynu'r byrddau yn y lle cyntaf.
- *Cllr Rhodri Evans to investigate the situation with regard to the information boards dotted around Llangeitho village, as European money was used to purchase the information boards initially.*
- Soniwyd bod ail gais cynllunio i godi stablau ar ddaear Helen House, Stags Head wedi'u rhoi fewn eto, trafodwyd y cais a soniwyd bod yna ddau geffyl wedi dod ar y ddaear erbyn hyn. Cwynion wedi'u dderbyn am berchennog y ddaear yn parcio mewn lle peryglus wrth fynedfa i'r cae. Cytunwyd i beidio anfon dim ychwanegol i mewn i wrthwynebu'r cais cynllunio.
- *It was noted that a second planning application had been made to erect stables on the land of Helen House, Stags Head. The application was discussed and it was noted that there were two horses on the land by now. Complaints had been received that the owner of the land was parking a vehicle in a dangerous place at the entrance of the site. It was decided not to send anything else in to the planning application process.*

### Gohebiaeth/Correspondence

- Llythyr o ddiolch wedi'u dderbyn oddi wrth Y Barcud am y rhodd ariannol.
- *Letter of thanks received from Y Barcud for the financial donation.*
- Llythyr o ddiolch wedi'u dderbyn oddi wrth Gapel Gwynfil am y rhodd ariannol.
- *Letter of thanks received from Gwynfil Chapel for the financial donation.*

### Cyfrifon/Accounts

- Balans y banc / *Balance in bank* £6,813.38
- Ail ran o'r Praecept wedi'u dderbyn yn y banc o / *Second part of Precept has been received in the bank* £1,833.33
- Grant Thornton £268.00
- Trafodwyd a chytunwyd ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse i dderbyn yr argymhellion a rhestrwyd gan Grant Thornton i'r archwiliad blynyddol.
- *Grant Thornton's recommendations listed in its annual audit of the council's finances were discussed and Cllr Daniel Thomas, seconded by Cllr Dafydd Morse, proposed accepting them.*
  - Cymeradwywyd y datganiadau cyfrifyddu ar y ffurflen flynyddol gan y Cyngor ar 14 Mai 2018, ac wedi ateb 'Cywir' i honiad 6, yn cadarnhau fod y Cyngor wedi cadw system archwiliad mewnol o gofnodion cyfrifo a system reoli effeithiol a digonol trwy gydol y flwyddyn. Cwblhaodd yr archwilydd mewnol yr adroddiad archwilio mewnol ar y ffurflen flynyddol ar 20 Mai, 6 diwrnod ar ôl i'r Cyngor rhoi ateb cadarnhaol i honiad 6 ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Ffurflen Flynyddol. Codwyd y mater yma yn 2016/17 ble cwblhaodd yr archwilydd mewnol yr adroddiad 35 diwrnod ar ôl i'r Cyngor rhoi ateb i honiad 6. Angen trefnu bod y dyddiadau yn y dyfodol yn rhai cywir.
  - *Accounting statements by the Council on the annual form, on 14 May 2018, were approved, and after the answer 'Yes' to Assertion 6, confirms that the Council keeps an internal audit of accounting memoranda and an appropriate management system throughout the year. The internal auditor completed the internal audit report on the annual form on 20 May, six days after the Council had given its positive response to Assertion 6 about the Annual Governance Statement on the Annual Report. This matter was raised in 2016/17 when the internal auditor completed the report 35 days after the Council had responded to Assertion 6. There is need to ensure that these dates are correct in the future.*
  - Angen darparu llythyr penodi Archwilydd Mewnol yn datgan annibyniaeth yr Archwilydd Mewnol ac amlinellu'r tasgau bydd yr Archwilydd Mewnol yn ei wneud.
  - *There is need to provide a letter nominating an Internal Auditor which states the independence of the Internal Auditor and outlines the tasks of the Internal Auditor.*
  - Ym marn yr Archwilwyr allanol ddylsai Honiad 8 o'r adroddiad ddarllen 'Anghywir'.
  - *According to the External Auditor, the answer to Assertion 8 should have been 'No'.*
  - Angen symud costau'r clerc o focs 4 i focs 6.
  - *There is need to move the clerk's costs from box 4 to box 6.*
  - Ddylsai 'Nil' fod wedi'u hysgrifennu mewn boc 13.
  - *'Nil' should have been written in box 13.*
  - Ddylsai boc 14 gael 'Dd/G' wedi'u roi ynddo.
  - *Box 14 should have had N/A in it.*
  - Ddylsai'r archwiliwr mewnol darparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor.
  - *The internal auditor should prepare an annual report for the Council.*
  - Ddylsai boc 11 wedi'u gwblhau gan yr archwiliwr mewnol i ddarllen 'Dd/G'.
  - *Box 11 should have been filled by the internal auditor, noting N/A.*

### **Cyngor Sir Ceredigion/Ceredigion County Council**

Cytunwyd i beidio anfon unrhyw sylwadau ychwanegol i'r cais cynllunio ar ddaear Helen House.

*It was agreed not to send any further comments about the Helen House land planning application.*

### **Un Llais Cymru/One Voice Wales**

Dim i adrodd / *Nothing to report.*

### **Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- Soniwyd nad oedd y Cyngor Sir wedi casglu sbwriel yn Llwynpiod ers 2 wythnos.
- *It was noted that the County Council had not collected rubbish in Llwynpiod for a fortnight.*
- Trafodwyd y mater o 'pre-gritting' yn y gymuned a gofynnir i Cyng Rhodri Evans i edrych fewn i'r sefyllfa gan fod ambell i bentref arall wedi cael y matrix wedi'u hail-asesu.
- *Pre-gritting in the community was discussed, and Cllr Rhodri Evans was asked to look into the situation as a few other villages had had their matrix reassessed.*
- Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth PCSO John Evans am ddigwyddiadau yn y gymuned dros y tri mis diwethaf.
- *A verbal report was received from PCSO John Evans about incidents in the community over the past three months.*

### **Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date and Location of next meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Capel Llwynpiod ar nos Lun 5ed o Dachwedd 2018 am 8 o'r gloch.

*The next meeting will be held at Llwynpiod Chapel Vestry, on Monday, 5 November 2018, at 8pm.*